Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 12.03.2021

## Adolygiad Cyfyngiadau 12 Mawrth 2021 – pwyntiau allweddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o newidiadau yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4. Y pwyntiau allweddol i fusnesau yw:

- Newid o'r rheol 'aros gartref' i reol 'aros yn lleol' (o fewn 5 milltir fel arfer).
- O'r 13 Mawrth 2021:
  Gall ymweliadau â chartrefi gofal ailddechrau ar gyfer un ymwelydd dynodedig.
  Cyfleusterau chwaraeon tu allan, gan gynnwys cyrtiau pêl fasged, cyrtiau tenis a chyrsiau golff yn cael ailagor.

- O’r 15 Mawrth 2021:
  Gall siopau trin gwallt/barbwyr ailagor trwy apwyntiad yn unig.

- O’r 22 Mawrth 2021:
  Codi’r cyfyngiadau ar werthiant eitemau anhanfodol ar gyfer y siopau hynny sydd ar agor ar hyn o bryd.
  Ailagor canolfannau garddio.

- Yn bosib o 27 Mawrth 2021:
  Codi’r cyfyngiadau aros yn lleol mewn pryd ar gyfer y Pasg.
  Ailagor llety gwyliau hunan-gynhwysol ar gyfer grwpiau o un aelwyd ac o Gymru’n unig.

- Yn bosib o 12 Ebrill 2021:
  Ailagor gweddill gwasanaethau cyswllt agos.
  Ailagor pob siop.

I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/aros-yn-lleol-cymru-yn-cymryd-y-camau-cyntaf-i-lacior-cyfyngiadau-symud

# NODYN ATGOFFA: Ail gyfnod ymgeisio Cronfa Cymorth Penodol i’r Sector busnesau twristiaeth, lletygarwch a hamdden yn cau am 8:00pm heddiw 12 Mawrth 2021

Bydd ail gyfnod o’r Grant Penodol i’r Sector Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, wedi’i dargedu at fusnesau Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden a chwmnïau yn y gadwyn gyflenwi, yn cau am 8:00pm heddiw 12 Mawrth 2021, neu yn gynt os bydd yr arian wedi’i ymrwymo’n llawn, felly peidiwch ag oedi cyn gwneud cais. Nod y grant yw cefnogi busnesau sy’n cyflogi 10 neu fwy o staff sy’n disgwyl gostyngiad mewn trosiant o fwy na 60%, o ganlyniad i’r cyfyngiadau symud Lefel Rhybudd 4 parhaus rhwng 25 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2021, i gyfarfod â’u costau gweithredu. Gallwch adolygu’r meini prawf a pharatoi i ymgesio yma:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/ssgp2/cy

## £150 miliwn ychwanegol i gefnogi busnesau yng Nghymru

Mae £150 miliwn arall ar gael i gefnogi busnesau Cymru i ddelio ag effaith barhaus pandemig y coronafeirws. Bydd busnesau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol y mae'n rhaid iddynt aros ar gau, ac yn derbyn biliau Ardrethi Annomestig, yn gymwys i gael trydydd taliad o rhwng £4,000 a £5,000 i'w helpu i dalu costau gweithredu parhaus tra na allant fasnachu. Bydd y gronfa hon unwaith eto'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd. Bydd busnesau sydd wedi cael cymorth gan y Grantiau Ardrethi Annomestig o'r blaen yn derbyn y taliad ychwanegol yn awtomatig erbyn 31 Mawrth 2021 fan bellaf. Bydd busnesau cymwys nad ydynt wedi cael cymorth o'r blaen yn gallu gwneud cais drwy lenwi ffurflen syml.

- Bydd manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd erbyn amser cinio ddydd Llun, 15 Mawrth 2021

Mae grantiau dewisol Chwefror/Mawrth 2021 i fusnesau bach nad ydynt yn derbyn bil Ardrethi Annomestig – neu sy'n anghymwys i gael y grantiau Ardrethi Annomestig – yn parhau ar agor i fusnesau nad ydynt eisoes wedi cael cymorth, ewch i:

http://bit.ly/CronCyfMawrth2021

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru